OHPA
Office of the Health Professions Adjudicator

Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2010-2011



Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA)

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
2010 - 2011

Cyflwynwyd yr adroddiad i Senedd San Steffan yn unol â pharagraff 20(3)(a) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Cyflwynwyd y cyfrifon i Senedd San Steffan yn unol â pharagraff 19(5) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Act 2008

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 20(3)(b) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Cyflwynwyd y cyfrifon i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 19(4) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 29 Mehefin 2011

HC 1082 Llundain: Y Llyfrfa £15.50

© Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (2011)

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a nodi teitl y ddogfen. Mewn achosion lle nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom drwy **info@ohpa.org.uk**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar **www.official-documents.gov.uk/**

ISBN: 9780102972269

Cyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan y Llyfrfa Cyfyngedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: 2432474 06/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffibr wedi'i ailgylchu.

Office of the Health Professions Adjudicator (OHPA)

7th Floor, New Kings Beam House
22 Upper Ground
London
SE1 9BW

Ffôn: 020 7633 7708

Ffacs: 020 7633 7146

E-bost: info@ohpa.org.uk

Gwefan: http://ohpa.org.uk

Cynnwys

Rhan 1:

Rhagair gan Gadeirydd OHPA **04**

Sylwebaeth Reoli **07**

Rhan 2:

Cyfrifon 2010 – 2011 **14**

Rhan 1:
Cyflwyniad gan Gadeirydd OHPA

Ar ddechrau Rhagfyr 2010 cyhoeddwyd mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi penderfynu symud ymlaen tuag at ddiddymu OHPA yn dilyn ymarfer ymgynghorol. Dim ond ychydig dros ddeng mis oedd wedi mynd heibio ers inni ddod yn sefydliad corfforaethol. Sefydlwyd OHPA dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac o dybio fod y Senedd yn cydsynio, byddwn yn cael ein diddymu gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2011 arfaethedig. Ychydig iawn o sefydliadau cyhoeddus erioed allai fod wedi cael cyn lleied o amser i ddangos eu gallu. Fodd bynnag, rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd gennym, ac o'r etifeddiaeth a adewir ar ein holau.

Roedd ein deddfwriaeth yn mynnu ein bod i gyllido ein hunain yn llwyr, gan godi ffioedd ar reolyddion iechyd a gofal cymdeithasol y byddem wedi darparu dyfarniadau annibynnol ar eu cyfer o fewn system a ddiwygiwyd yn sylweddol. Byddem wedi bod yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor yn hytrach nag i Weinidogion neu'r Adran Iechyd. Byddai'r system y byddem wedi'i chreu wedi sicrhau cleifion a'r cyhoedd y byddai tribiwnlys hollol annibynnol yn eu hamddiffyn rhag gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn addas i ymarfer. Roedd hyn o ganlyniad i argymhelliad allweddol a wnaed yn dilyn yr ymchwiliad i'r meddyg a'r cyfres lofrudd, Harold Shipman. Drwy greu corff allai fod ag awdurdod dros y proffesiynau iechyd i gyd, byddai hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb o ran ymdriniaeth a chanlyniadau, a thrafod rhai cwynion hirdymor. Er enghraifft, mae nyrsys wedi bod yn cwyno'n gyson eu bod yn cael eu beirniadu'n fwy llym na meddygon am yr un tramgwydd. Nid yw felly'n syndod fod Coleg Brenhinol y Nyrsys ac UNISON, yr undeb sy'n cynrychioli llawer o nyrsys, wedi dadlau'n gryf na ddylem gael ein diddymu.

Wrth inni ymchwilio i'r trefniadau dyfarnu oedd i'w trosglwyddo inni, synnem i ba raddau y methwyd cadw ar ben datblygiadau yng ngweinyddiad cyfiawnder prif lif. Yn y llysoedd sifil a throseddol, ac mewn tribiwnlysoedd, rhoddodd diwygiadau diweddar y pwyslais ar reoli achosion barnwrol yn effeithiol, ac ar gadw cydbwysedd rhwng y gost a hyd yr achos. Gallem weld fod arbedion sylweddol iawn yn bosib drwy weithredu'r egwyddorion a'r technegau hyn. Byddai'r baich ariannol ar ddyfarnwyr (sydd wrth gwrs yn cael ei basio i'r gweithwyr proffesiynol cofrestredig) yn llai, ond gellid cyflymu achosion hefyd fyddai o fudd i'r achwynwyr, tystion, cyflogwyr a'r gweithwyr proffesiynol cofrestredig. Gyda threigl amser byddai arbedion maint wedi digwydd drwy gael gweinyddiaeth unigol, system swyddfa gefnogol, panel canolog o aelodau tribiwnlysoedd ac yn nifer ystafelloedd gwrandawiadau. Byddai hyn wedi dilyn rhaglen y Llywodraeth ei hunan o resymoli a gostwng costau hi'r o'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth.

Yn ystod Chwefror 2011 cyhoeddodd y Llywodraeth bolisi oedd wedi'i anelu at ostwng costau dyfarnwyr gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd adolygiad o p'un ai ydy dyfarnwyr yn gost-effeithiol ac yn effeithlon yn cael ei gynnal ar draws y sector, gyda'r bwriad o ysgogi "arbedion costau arwyddocaol". Bydd yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o gyfuno neu atgyfnerthu, gan dynnu sylw arbennig at gost achosion Addasrwydd i Ymarfer. Mae'n anodd cysoni bwriadau'r polisi hwn gan y Llywodraeth gyda'i benderfyniad i daflu o'r neilltu y cyfle i leihau costau dyfarniadau Addasrwydd i Ymarfer y gallai'r OHPA fod wedi'u sicrhau. Ni fydd yn hawdd i ddyfarnwyr y proffesiynau iechyd, yn unigol ac yn annibynnol, sicrhau'r raddfa o arbedion y gellid bod wedi'u gwarantu drwy raglen yn cael ei rheoli'n ganolog. Roedd felly'n hynod anffodus ein bod wedi'n dal ynghanol ymdrech gyffredinol y Llywodraeth i leihau'r diffyg yn y cyfrifon cyhoeddus a hefyd y nifer o gyrff hyd braich.

Er gwaetha'r dull chwithig hwn o weithredu, mae'n ymddangos y bydd o leiaf rai o'r diwygiadau y byddem wedi'u rhoi ar waith yn mynd yn eu blaenau. Lansiodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) ymgynghoriad ar foderneiddio ei drefn ddyfarnu. Bydd llawer o'r hyn a hyrwyddwyd yn wreiddiol gan OHPA am reolaeth gyfoes achosion yn cael ei gymryd i ystyriaeth drwy gyfrwng ei Wasanaeth Tribiwnlys i Ymarferwyr Meddygol (Medical Practitioners Tribunal Service). Mae'r model hwn yn dibynnu'n sylweddol ar syniadau a chynlluniau a ddatblygwyd gennym ni. Mae Prif Weithredwr y CMC wedi cydnabod y gallai meddygon a'r trethdalwr arbed miliynau o bunnau drwy gyfrwng y diwygiadau hyn. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd yn ymgynghori ar newidiadau i'w reolau Addasrwydd i Ymarfer; mae'r rhain yn darparu ar gyfer y drefn ddyfarnu, ac unwaith yn rhagor, mae wedi benthyg cryn dipyn o reolau a pholisïau a amlinellwyd gennym ni. Hefyd, mae'r Adran Iechyd wedi comisiynu'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE) i ganfod sut y gall pob rheolydd sicrhau system fwy modern ac effeithlon o ddyfarnu. Arweiniwyd y gwaith hwn gan CHRE, wedi'i gynghori gan ein cyfarwyddwr polisi, Wendy Harris.

O gymryd yn ganiataol y ffaith foel y byddwn yn cael ein diddymu, rydym er hynny'n ei ystyried yn bwysig ein bod yn rhoi cyfrif o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiweddaf.

O safbwynt mewnol, mae'n arbennig o braf cael cofnodi'r hyn a ddywedwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) am raglen yr OHPA wrth adolygu Gateway am y tro cyntaf yng Ngorffennaf 2010. Dywedodd yr OGC fod y rhaglen "yn cael ei rheoli'n dda ac yn cael ei gweithredu yn ôl y cynllun gan dîm profiadol, abl a brwdfrydig." Ceid "nifer o enghreifftiau o arfer da o fewn rhaglen sy'n amlwg yn cael ei rhedeg yn eithriadol o dda," a graddiwyd y rhaglen yn Wyrdd (cymeradwyaeth brin iawn) am bob agwedd oedd o dan eu rheolaeth. Cofnodir enghreifftiau o'r arfer da hwnnw o fewn yr Adroddiad Blynyddol hwn – gan gynnwys cychwyn trafodaeth gyda stadau lle'r oeddem wedi ystyried rhannu adeilad gyda chorff arall a ariennir o'r pwrs cyhoeddus. Byddai hyn wedi arbed arian sylweddol i'r cofrestredig, i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (y rheoleiddiwr cyntaf y byddem wedi cymryd arnom eu dyfarniadau), ac i'r trethdalwr. Ni soniwyd am yr arbediad hwn yn yr asesiad effaith a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar ein dyfodol.

Roedd prosiect yr OHPA eisoes dan fygythiad difrifol erbyn adolygiad yr OGC, ac yr oedd nifer o'n gweithgareddau wedi gorfod cael eu hatal tra'r roeddem yn disgwyl am ymateb gan y Gweinidogion. Er ein bod yn hyderus y gallem gychwyn ar y dyddiad a fwriadwyd, roedd yr OGC yn gywir pan ddywedodd fod yr oedi yn "peryglu ymhellach y dyddiad cychwyn ar 1 Ebrill 2011 oedd eisoes yn dynn." Er hynny, dywedodd yr OGC fod "llawer o waith da wedi'i gyflawni", gan argymell, petai'r penderfyniad i ddiddymu'r rhaglen yn cael ei wneud, y dylid cymryd y cyfle i wneud defnydd o sgiliau, adnoddau ac allbynnau'r OHPA wrth lunio fframwaith dyfarniadau Addasrwydd i Ymarfer yn y dyfodol.

Mae addasrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ymarfer – meddygon, nyrsys, optegwyr, gweithwyr cymdeithasol – yn bwnc arbenigol. Er hynny, nid yw mor wahanol i'r materion sy'n codi yng ngweithdrefnau disgyblu proffesiynau eraill – er enghraifft, y gyfraith – lle mae rheolaeth effeithiol ar achosion fel rhan o drefniadau tribiwnlys eisoes mewn bodolaeth. Mae dyfarnu ar achosion fel hyn yn rhan o weinyddiad cyfiawnder, ac felly y dylid ei ystyried. Mae'n drueni mawr fod difodiant y Llywodraeth o gyrff cyhoeddus yn diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a

Thribiwnlysoedd, sef yr unig gorff allai gymryd trosolwg o sefyllfa a datblygiad tribiwnlysoedd disgyblu proffesiynol a'u lle o fewn y drefn gweinyddu cyfiawnder. Rhaid rhoi clod i'r safbwynt y dylid cynnwys dyfarniadau iechyd a disgyblu proffesiynol yn y tymor hir dan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ehangach. Mae'r gwasanaeth hwnnw wedi datblygu profiad mewn penodi, hyfforddi, datblygu, talu ac asesu barnwyr tribiwnlysoedd – rhai cyflogedig a rhan amser – sy'n dyfarnu ar ystod eang o achosion mewn sectorau arbenigol. Mae ei reolaeth ar y defnydd effeithiol o ofod ystafelloedd gwrandawiadau ar draws y wlad eisoes wedi creu arbedion. Eisoes, ceir Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol o fewn y Gwasanaeth sy'n rhoi ystyriaeth i safonau gofal, iechyd meddwl a rhestrau achosion gofal sylfaenol. O ran arweiniad ac atebolrwydd, mae'r siambr honno'n cael ei harwain gan ei Llywydd barnwrol ei hunan, ac mae'r Gwasanaeth yn cael ei reoli gan brif weithredwr. Mae'r aelodau barnwrol yn edrych tua'r Uwch Lywydd, sy'n farnwr yn y Llys Apêl. Byddai'n ddoeth i'r Adran Iechyd beidio colli golwg ar yr hyn sy'n cael ei wneud gan eu cydweithwyr yn Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Wrth inni aros am gael ein diddymu'n ddeddfwriaethol, rydym wedi cwtogi ar ein staff a'n hadnoddau i'r lleiafswm sydd ei angen i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r Adran Iechyd yn cadw trosolwg drwy gyfrwng adolygiadau atebolrwydd, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n abl i gyflawni'r gofynion statudol sydd arnom. Ar yr un pryd, rydym wedi cynnig sylwadau a chyfrannu at y rhaglenni diwygio sydd ar y gweill gan reolyddion iechyd.

Wrth orffen y rhagair hwn, hoffwn dalu teyrnged ar ran bwrdd OHPA i aelodau'r tîm trosiannol a gafodd eu canmol yn hollol deilwng gan yr OGC. Roeddent yn grŵp o unigolion mor wych a thalentog ag unrhyw rai y cefais y pleser o weithio gyda nhw o'r blaen. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n gweithio ochr yn ochr â OHPA yn ystod ein cyfnod sefydlu – staff y Cyngor Optegol Cyffredinol (y disgwylid i'w dyfarniadau drosglwyddo i OHPA yn 2012), ac yn arbennig staff ac aelodau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'i banelwyr. Rhaid cyfeirio'n benodol at staff dyfarnu'r CMC yn Llundain a Manceinion y cawsom ni yn OHPA gymaint o fanteision ganddynt o ran gwybodaeth, brwdfrydedd a syniadau. Buom hefyd yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid – cyrff yn cynrychioli cleifion, ymarferwyr cyfreithiol, cymdeithasau amddiffyn meddygol, ac ni allem fod wedi datblygu'r model dyfarnu y mae'r CMC bellach yn mynd i'r afael ag o heb eu hymwneud cyson ac adeiladol hwy.

Walter Merricks CBE

Mai 2011

Sylwebaeth Reoli

Cyflwyniad

Sefydlwyd Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn gofyn bod OHPA yn cael ei reoli gan fwrdd sy'n cynnwys cadeirydd, aelod gweithredol ac uchafswm o dri aelod anweithredol ar y bwrdd. Bu'r cadeirydd, Walter Merricks, a'r tri aelod anweithredol, Pamela Charlwood, Andrew Colquhoun, a'r Fonesig Janet Finch, yn eu lle drwy 2010-2011. Penodwyd prif weithredwr, Stephen Shaw, ym mis Chwefror 2010, ac ymunodd â'r bwrdd pan gychwynnodd ar ei swydd ym mis Mai.

Cyfarfu'r bwrdd bob mis nes y daeth cyhoeddiad y Llywodraeth fod OHPA i gael ei ddiddymu. Y bwriad ar hyn o bryd yw cyfarfod bob chwarter nes y bydd y sefydliad wedi cael ei ddirwyn i'w derfyn yn ffurfiol. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir y bydd hyn yn digwydd tan ddechrau 2012. Rydym yn glynu'n llwyr at bob cyfrifoldeb statudol neu eraill.

Yn ystod rhan gyntaf y cyfnod adrodd, roedd y bwrdd a'i staff yn gweithio ar y rhagdybiaeth y byddai bwriadau perthnasol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 yn cael eu cyflawni: hynny yw, y byddai OHPA yn ymgymryd â gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer yn lle'r Cyngor Meddygol Cyffredinol o 1 Ebrill 2011, ac eiddo'r Cyngor Optegol Cyffredinol o ddyddiad yn nes ymlaen. Datblygwyd cynllun cynhwysfawr i'r rhaglen yn cynnwys Polisi, Adnoddau Dynol, Adeiladau, Gweithrediadau, Cyfathrebu, Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2010, daeth yn amlwg fod y Llywodraeth newydd yn ansicr a ddylai OHPA fynd rhagddo, ac fe lansiwyd ymarfer ymgynghori ffurfiol ar ddechrau Awst. Cyhoeddodd hwn mai'r "dewis a ffafriwyd' gan y Llywodraeth oedd dirymu'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag OHPA. Erbyn hyn, cafodd rhaglen OHPA ei hatal am y tro, a bu'n rhaid i fwyafrif y staff interim ildio'u swyddi.

Daeth yr ymgynghori i ben ym mis Hydref, gyda bwrdd OHPA wedi cynnig fersiwn llai cynhwysfawr ohono'i hun fel dewis amgen i'r rhaglen lawn. Fel y digwyddodd pethau, penderfynodd y gweinidogion yn erbyn y fersiwn wreiddiol a'r fersiwn ddiwygiedig, ac felly gadawodd rhagor o staff y sefydliad ar ôl mis Rhagfyr. Ers hynny, mae'r bwrdd wedi gweithredu gyda'r staff sy'n hanfodol i gyfarfod ein cyfrifoldebau fel corff statudol, ac i gynyddu'r dysgu gan OHPA. Mae hyn yn cydymffurfio gyda'r hyn mae'r Llywodraeth ei hun yn ei ddweud yn ei Adroddiad Ymgynghorol.[1] Gan gymeradwyo agwedd mwy cyson a meddwl cyfunol, dywed yr Adroddiad: "Mae'n allweddol fod dysgu gwersi'n digwydd o brofiad OHPA. Mae pawb sy'n ymwneud â'r prosiect yn cydnabod fod gwaith OHPA, ei fwrdd, a'i staff wedi ehangu'r drafodaeth am sut fath o system ddyfarnu fyddai un sy'n fodern ac effeithiol, a sut y dylai weithredu."

Er mwyn cynyddu'r dysgu hwnnw, mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu beth a gyflawnwyd gan bob un o'r amrywiol ffrydiau gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw.

Rheoli'r Rhaglen

Trefnwyd ffurfiant OHPA (a'r cau i lawr a ddilynodd) yn unol â chanllawiau caeth rheoli rhaglenni. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen o blith y tri chorff allweddol – yr Adran Iechyd, y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac OHPA ei hunan – gyda chynrychiolaeth hefyd o'r Cyngor Optegol Cyffredinol, a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Roedd y bwrdd hefyd yn cynnwys dau was sifil a chanddynt brofiad diweddar o sefydlu cyrff newydd, Elizabeth Diamond o'r Adran Iechyd a Dr Elizabeth Gibbey o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cawsom gyngor doeth ganddynt. Elfennau eraill o reolaeth y rhaglen a gynhwyswyd oedd Grŵp Cyflawni ar y Cyd (sef arweinwyr polisi OHPA a'r swyddogion cyfatebol o'r CMC), a Grŵp Gweithredu ar y Cyd er mwyn rhoi sicrwydd i fwrdd OHPA a chyngor y CMC.

1 Yr Adran Iechyd, Fitness to Practise Adjudication for Health Professionals: Assessing different mechanisms for delivery, Consultation report: November 2010, t.10. (Cyhoeddwyd 2 Rhagfyr 2010.)

Canmolwyd cynllun y rhaglen, ymwneud OHPA a'i randdeiliaid, ac ansawdd y tîm trosiannol a luniwyd i roi OHPA ar waith, yn benodol gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn eu hadolygiad o Gateway a wnaed yng Ngorffennaf 2010: "Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i diffinio i weithredu'r polisi...Cafodd Rhanddeiliaid eu canfod a'u cynnwys yn llawn...Ar lefel ffrydiau gwaith unigol y prosiect, cwblhawyd achosion busnes eisoes neu maent ar y gweill." Aeth ymlaen, "Canfuwyd fod prif ddeilliannau rhaglen OHPA wedi eu cofnodi'n llawn a'u deall. Yn ychwanegol at hyn, cofnodwyd yn llawn hefyd y berthynas rhwng y deilliannau hynny a'r ddeddfwriaeth a'r prosesau busnes."

Roedd y rhaglen wedi'i seilio ar wybodaeth, ac wedi'i chefnogi gan raglen ymchwil gynhwysfawr. Roedd hynny'n cynnwys ymarfer meincnodi (er mwyn asesu gwahanol ddisgwyliadau rheolyddion a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eu hunain), cynllunio'r busnes drwyddo draw, gweithdai a gynhaliwyd gyda staff y CMC, ymchwil sylfaenol i ddulliau dyfarnu cyfredol a'r pwysau gwaith ar y gwahanol broffesiynau, a chyngor a barn gyfreithiol (gan gynnwys 'Grŵp Herio a Chadarnhau' a sefydlwyd i adolygu rheolau drafft OHPA).

O'i ran ei hun, gosododd bwrdd OHPA gyfeiriad y rhaglen, gan ddatblygu ystod eang o bolisïau i reoli cyfarwyddiadau cyllidol, datganoli, a rheoli risg ymysg pethau eraill. Mynychodd aelodau o'r bwrdd nifer o wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer er mwyn goleuo'u meddyliau am newidiadau posib i'r gweithdrefnau. Un wers bosib ar gyfer y dyfodol oedd y gallai'r penderfyniad i gyfyngu maint y bwrdd yn is-ddeddfwriaeth OHPA (cadeirydd, aelod gweithredol, a thri aelod anweithredol) fod wedi creu problemau yn y tymor hir wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu. Fel yr oedd pethau, roedd penodiadau i bwyllgorau archwilio a chydnabyddiaeth y bwrdd o reidrwydd yn cael eu cyfyngu i nifer fach iawn o geiswyr posib.

Polisi a Chyfreithiol

Prif amcanion y ffrwd gwaith ar bolisi yn ystod 2010 -11 oedd llunio Rheolau Gweithdrefnol o'r Diwrnod Cyntaf (h.y. y rheolau y byddai paneli OHPA yn gweithio oddi tanynt), y Rheoliadau Ffioedd, a Rheolau Trosiannol yr Ysgrifennydd Gwladol (h.y. y rheolau ar gyfer yr achosion ar hanner eu gwrando, neu ar fin cael gwrandawiad). Roedd rhaid drafftio hyn i gyd, ymgynghori ynglŷn â nhw, a'u rhoi yn eu lle ar gyfer dyddiad cychwyn OHPA – 1 Ebrill 2011, yn ogystal ag asesiad effaith, ac asesiad effaith cydraddoldeb.

Oherwydd yr amserlen dynn, ac er mwyn lleihau tarfu ar y gwaith o ddydd i ddydd, lluniwyd y rheolau Diwrnod Cyntaf yn bwrpasol gyda chyn lleied o wahaniaethau ag a oedd yn bosib i reolau cyfredol y CMC. Bwriadwyd ymgynghori'n ffurfiol ar y rheolau Diwrnod Cyntaf ar ddechrau Awst 2010, ac yr oedd system newydd o ymgynghori a dadansoddi dros y we wedi'i chreu ar ein cyfer gan Redhouse Lane Communications. Roedd yr holl elfennau angenrheidiol yn eu lle pan benderfynodd y Llywodraeth ei fod am ymgynghori am ddyfodol OHPA. Rhoddwyd y rhaglen i gysgu nes y byddai'r canlyniad yn hysbys.

Yr un pryd, bwriadwyd cyhoeddi papur am 'uchelgeisiau' OHPA: mewn geiriau eraill, ein diwygiadau radicalaidd tymor hir i wrandawiadau dyfarnu a gweithdrefnau cysylltiedig. Disgwylid y byddid yn ymgynghori'r ffurfiol ar reolau'n ymwneud â'r uchelgeisiau hyn yn ystod haf neu hydref 2011.

Erbyn hyn, mae'r papur am yr uchelgeisiau wedi'i gyhoeddi ar wefan OHPA (www.ohpa.org.uk) ond efallai y byddai'n ddefnyddiol amlinellu'r prif elfennau yma.

Dyma amcanion y rheolau newydd:

- Ymdrin â phob achos mewn dull fyddai'n cyfateb i gymhlethdod y materion dan sylw ac adnoddau'r partïon;
- Ceisio gwneud y drefn yn anffurfiol ac yn hyblyg;
- Osgoi oedi, cyn belled ag y mae hynny'n cyd-fynd a rhoi ystyriaeth lawn i'r broblem;

- Sicrhau (cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol) fod yr holl bartïon yn gallu cymryd rhan lawn yn y drefn;
- Defnyddio cyngor arbenigol ac arbenigedd yn effeithiol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, byddai OHPA wedi ymgynghori am yr elfennau sy'n dilyn:

- Llywydd Tribiwnlys neu Uwch Gadeirydd i roi arweiniad amlwg i gadeiryddion ac i banelwyr, gan gymryd rhan wrth eu penodi ac wrth asesu eu perfformiad, gosod hyfforddiant, mentora a herio, a chan weithio gyda'r Prif Weithredwr i sicrhau fod adrannau barnwrol a gweinyddol OHPA yn cydweithio. Yn ei dro, efallai y byddai'r Llywydd yn cael cefnogaeth gan ddirprwyon.
- Hyfforddiant a systemau gwerthuso mwy effeithiol ar gyfer panelwyr.
- Cyflogi cadeiryddion wedi cymhwyso yn y gyfraith, llawn amser neu ran amser, i ymdrin â materion yn ymwneud â rheoli achosion, cyfeiriad a gorchmynion costau, a chadeirio'r gwrandawiadau.
- Ymdrechu i reoli achosion cyn y gwrandawiad drwy roi cyfarwyddiadau clir i'r partïon ynghylch cyfyngiadau amser ar gyfer dadleniad tystiolaeth, trywydd dadleuon/dadl fframweithiau, amcangyfrifon hyd gwrandawiadau, ac ymdrin â thystiolaeth arbenigol.
- Gwrandawiadau llafar dim ond pan fo'n angenrheidiol i ddatrys a phenderfynu ar dystiolaeth neu ddadleuon sy'n cael eu gwadu.
- Dwy ran i'r broses, yn hytrach na thair fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Dylai'r rheoleiddiwr sy'n dod â'r achos gyfyngu'r achosion i honiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer datrysiad, a dylai enwi'r sancsiwn y credai fyddai'n addas.
- "Datganiadau effaith" yn rhan annatod o'r achos, fel bod y panel yn deall yr effaith a gafodd yr ymddygiad honedig ar gleifion.
- Defnydd eang o'r grymoedd cost a roddwyd i OHPA.
- Y partïon i ddatgelu cyllideb eu hachos, a chyfyngu ar y costau adferadwy y mae gan bartïon hawl eu rhedeg, heb gymryd ystyriaeth o'u hymrwymiad ariannol penodol.
- Defnydd mwy effeithiol o ystafelloedd gwrandawiadau. Gwella'r cyfleoedd i weithwyr proffesiynol ac aelodau lleyg weithredu fel panelwyr drwy gynnal gwrandawiadau yn y min nos neu yn ystod penwythnos.
- Dethol aelodau panelau o blith pobl leol a'u cymell i eistedd ar banelau.

Bu'n rhaid defnyddio Cynghorydd Cyfreithiol llawn amser wrth ddrafftio rheolau trefniadol OHPA. Cafwyd cynghorion pellach ynglŷn â'r rheolau gan y 'Grŵp Herio a Chadarnhau' y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Ymysg y 'cyfeillion beirniadol' hyn oedd cyfreithwyr uchel iawn eu parch a phobl eraill sy'n gweithio ym maes rheoleiddio proffesiynol, a rhoddodd y cyfan eu hamser yn ddi-dâl. Roedd sefydlu'r 'Grŵp Herio a Chadarnhau' yn rhan arall o raglen waith OHPA a gydnabuwyd yn arfer da a hynod arloesol gan yr OGC.

Adnoddau Dynol

Petai OHPA wedi mynd rhagddo, byddai wedi defnyddio oddeutu traean o gyllideb y CMC a chwarter ei staff. Cawsom gyfarfodydd ffrwythlon a chyson gyda'r staff hwnnw, ond byddai wedi bod angen goresgyn nifer o broblemau adnoddau dynol er mwyn i'r trosglwyddo i OHPA fod yn ddi-dor.

Golygai penderfyniadau ynghylch adeiladau (gweler isod) na fyddai raid cael unrhyw ddiswyddiadau yn y dyfodol rhagweladwy, a byddid wedi gweithredu egwyddorion TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau [Diogelu Cyflogaeth]). Er hynny, pan oedd y rhaglen yn cael ei rhoi o'r neilltu, roedd nifer o faterion pwysig ynghylch pensiynau oedd heb eu datrys. Un o'r rheiny oedd y byddai'n rhaid i gynlluniau OHPA gymryd i ystyriaeth anghenion cyrff rheoleiddio eraill allai fod wedi dod o dan awdurdod OHPA yn y dyfodol.

Roedd penodiad fframwaith presennol y CMC o banelwyr i fod i ddigwydd mewn dwy ran. Ar y dechrau, disgwyliwyd y byddai'r rhan fwyaf o banelwyr yn cael gwahoddiad i drosglwyddo i OHPA, a chan fod ein rheolau Diwrnod Cyntaf yn mynd i gael eu seilio ar reolau presennol y CMC, bach fyddai canlyniadau hyn o ran hyfforddiant. Yn y tymor hir, oherwydd bod OHPA yn bwriadu ailwampio'i wrandawiadau yn dribiwnlysoedd, gyda llawer, os nad y cyfan o'r rheiny dan lywyddiaeth cadeirydd sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiwr, byddai angen cael proses ddwys o ailasesu ac ailbenodi, ynghyd â hyfforddiant addas a chefnogaeth. Roeddem wedi gobeithio hyfforddi ac asesu'n panelwyr ochr yn ochr ag eraill gyda chyfrifoldebau tebyg o fewn y system weinyddu cyfiawnder, a byddai'r dysgu'n ehangach o'r herwydd. Roeddem hefyd wedi rhagweld cyfleoedd i fentora'n panelwyr, fel bod yr hyfforddiant ffurfiol yn cael ei ategu'n gyson. Rhagwelwyd y byddai llawer o'r gweithgarwch hwn wedi'i arwain gan Lywydd y Tribiwnlysoedd pan gai ei benodi. Bwriad OHPA hefyd oedd denu pobl fwy lleol i'r lleoliadau dyfarnu er mwyn lleihau unrhyw gostau teithio a threuliau diangen, ac er mwyn gwneud defnydd mwy hyblyg o adnoddau drud ystafelloedd gwrandawiadau.

Ychydig cyn penderfyniad y Llywodraeth i ymgynghori ynghylch OHPA, roedd y bwrdd wedi cytuno ar strwythur uwch reolaeth yn cynnwys tîm bychan fyddai'n atebol i'r Prif Weithredwr. Byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr (Prif Swyddog Gweithrediadau) yn gweithio o Fanceinion lle disgwylid y byddai mwyafrif y dyfarniadau'n cael eu cynnal. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol hefyd ym Manceinion. Rhagwelwyd y byddai trydydd aelod yr uwch dîm rheoli (Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu) yn gweithio o Lundain. Fel y digwyddodd pethau, ni chafodd hysbysebion ar gyfer y swyddi hyn eu cyhoeddi.

O dan yr uwch dîm rheoli, byddai dau Reolwr Gweithrediadau. Er nad oedd penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud, rhagwelwyd y byddai o leiaf rai o'r swyddogaethau eraill (Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol er enghraifft) yn cael eu darparu o'r tu allan, gan ostwng gorbenion OHPA.

Yn ystod y cyfnod adrodd roedd amryw o bolisïau ynghylch materion Adnoddau Dynol yn y broses o gael eu drafftio a'u cytuno gan y bwrdd.

Adeiladau

Gwnaeth bwrdd OHPA benderfyniad strategol y byddai ei ddyfarniadau'n cael eu gwrandawiad cychwynnol mewn dau leoliad: yng nghanolfan wrandawiadau bresennol y CMC ym Manceinion, ac mewn lleoliad newydd yng nghanol Llundain. Roedd y penderfyniad i fynd am leoliad yn Llundain yn ogystal ag un Manceinion yn adlewyrchu'r agwedd fwyaf ffafriol i'r cwsmer yn ein barn ni ag ystyried y nifer o achosion oedd yn deillio o'r De-ddwyrain (dylai tribiwnlys ddigwydd o fewn pellter rhesymol i'r partïon dan sylw). Byddai hefyd yr un mwyaf tebygol o apelio at reolyddion eraill (gan fod mwyafrif eu hachosion hwythau yn Llundain ar hyn o bryd), ac yn un allai gael ei gyfiawnhau'n ariannol. Agwedd allweddol o'r maen prawf diwethaf oedd dod o hyd i ganolfan gwrandawiadau yn Llundain allai gael ei rhedeg yn fwy effeithiol nag adeilad presennol y CMC.

Daethom o hyd i gorff cyhoeddus a chanddo ofod sbâr, a bwriad OHPA oedd rhannu hwnnw fel ei ganolfan yn Llundain. Roedd hyn yn dilyn chwilio dwys am eiddo, ac wedyn daeth yr adeilad hwn i'n sylw, a chanfuwyd ffordd arloesol o'i ddefnyddio. Byddai OHPA wedi rhannu swyddogaethau swyddfa gefnogol (rheoli adnoddau, gwasanaeth ffôn, Technoleg Gwybodaeth ac yn y blaen), a hefyd y gofod ar gyfer ystafell wrandawiadau. Canlyniad hyn fyddai defnydd llawer mwy hyblyg a thrylwyr o'r lle – i OHPA yn ogystal ag i'r sefydliad arall.

Roedd manylion y cynllun yn darparu ar gyfer defnydd ymestynnol o'r adeilad, gydag adnoddau arbennig ar gyfer tystion bregus ac eraill gydag anghenion arbennig. Byddai'r manteision hyn wedi cael eu rhannu wrth reswm. Byddem hefyd wedi cymryd agwedd fodern tuag at ddefnydd effeithiol o le ar gyfer lletya'r staff. Byddem hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i'r defnydd o le ym Manceinion.

Yn ei adroddiad Gateway, canmolodd OGC Gateway waith OHPA ynghylch adeiladau drwy ddweud: "Roedd y dogfennau adeiladau (Cynllun Busnes Amlinellol) a'r Crynodeb Gweithredol yn ardderchog, ac yn fodel o arfer da wrth fynegi achos dros benderfyniad busnes a buddsoddiad." Mae'n rhaid cydnabod, fodd bynnag, fel y dywedodd yr OGC ei hunan, y byddai anfanteision i'r CMC o gael "ei adael gydag adeiladau drud a heb denantiaid". Er hynny, nodwn fod y cynnig diweddar fod y CMC ei hunan yn symud ei ddyfarniadau i Fanceinion hefyd yn cael yr un effaith.

Ar yr union adeg pan godwyd cwestiynau am raglen OHPA gan benderfyniad y Llywodraeth i ymgynghori am ein dyfodol, roeddem o fewn ychydig ddyddiau i lofnodi cytundeb gyda'r corff cyhoeddus arall yn Llundain yr oeddem yn gobeithio mynd i bartneriaeth ag o.

Gweithrediadau

Prif amcan ffrwd gwaith Gweithrediadau oedd sicrhau fod gweithdrefnau OHPA yn addas i'w pwrpas o'r diwrnod cyntaf, oedd yn hanfodol i'r busnes. Roedd hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at benderfyniadau roedd yn rhaid eu cymryd ynglŷn â Thechnoleg Gwybodaeth.

Cafodd hyn ei ddylanwadu'n drwm gan y gwaith ar gynllunio'r broses a gomisiynodd OHPA gan y cwmni, WCL. Oherwydd cyfrinachedd masnachol, ni ellir rhoi rhyddhad cyhoeddus i'r adroddiad, a ddibynnai'n drwm ar ddata a ddarparwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Fodd bynnag, mae'n iawn inni gydnabod yma'r cymorth a gynigiwyd gan y CMC. Mae arnom ddyled fawr i staff dyfarnu'r CMC, yn Llundain ac ym Manceinion, a gyfrannodd i'r gyfres o weithdai i'r defnyddiwr a gynhaliwyd gennym. Roedd eu brwdfrydedd am y newidiadau oedd yng nghynlluniau OHPA, a'r syniadau a gyfrannwyd ganddynt i ddiwygio dulliau gweithio, yn ffynhonnell ysbrydoliaeth inni. Byddent o gymorth mawr i'r CMC wrth iddynt gyflwyno'u cynnig am system Dribiwnlys, ac mae'n bur debyg y bydd llawer ohoni'n dynwared y model a gynigiwyd gan OHPA.

Daeth y gwaith ar Weithrediadau i ben yn llwyr ym mis Awst 2010, gan nad oedd dim byd defnyddiol y gellid ei wneud yn ystod y cyfnod ymgynghorol.

Cyfathrebu ac Ymchwil

Roedd strategaeth gyfathrebu ac ymrwymo gyfansawdd yn hanfodol, gan mai prin oedd yr amser oedd ar gael cyn y byddai'n rhaid i OHPA fod wedi cymryd arno ddyfarniadau'r CMC. Cam cyntaf pwysig iawn oedd ymarfer meincnodi, gafodd ei gynnal ar ein rhan gan Quadrant ac ICM Research. Roedd yr ymarfer wedi'i gynllunio i fesur agweddau tuag at weithdrefnau dyfarnu gan weithwyr iechyd proffesiynol a'r sawl sydd yn eu rheoleiddio. Bwriedid ail-gomisiynu'r ymchwil hwn wrth i OHPA ddatblygu.

Yn dilyn y penderfyniad i gau OHPA, mae'r ymchwil meincnodi wedi'i gyhoeddi ar wefan OHPA.

Mae'r wefan ei hunan rywfaint yn elfennol, gan fod yr ailwampio a gynlluniwyd er mwyn gallu cynnwys yr ymgynghoriad polisi wedi mynd i'r gwellt. Bu elfennau eraill yn y strategaeth gyfathrebu hefyd yn fyr eu hoes, gan gynnwys cylchlythyr electronig – dim ond un yn unig a gyhoeddwyd. Daeth yr ymwneud gyda phanelwyr presennol y CMC, oedd yn bwysig iawn yn ein golwg, hefyd i ben yn sydyn.

Ni ddatblygodd cangen ymchwil OHPA ychwaith mor bell ag y gobeithiwyd. Er hynny, cynhaliwyd ymchwil arloesol i hyd a lled dyfarniadau gan reolyddion gofal iechyd; byddai hwn wedi bod yn fwy arwyddocaol petai OHPA wedi cael y cyfle i gymryd arnynt eu hunain ddyfarniadau ehangach ar broffesiynau heblaw meddygon, optometryddion ac optegwyr. Ym marn OHPA gellid a dylid fod wedi cyhoeddi cynllun yn dangos pob un o reolyddion iechyd a gofal cymdeithasol un ai fel rhan o'r Ddeddf a sefydlodd OHPA, neu gan yr Adran Iechyd ochr yn ochr â'r Ddeddf. Byddai llawer o'r hyn a gynigiwyd gan OHPA ddim ond wedi'i gyflawni petaem wedi cael manteisio ar yr arbedion maint fyddai wedi dilyn petai dyfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol i gyd wedi dod o dan ein hawdurdod. (Er enghraifft, gallai fod wedi bod yn gost-effeithiol i gynyddu'r nifer o leoliadau gwrandawiadau o ddau i bedwar neu bump.) Erbyn hynny, gallai trosglwyddiad ffurfiol i'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd fod wedi dod yn ffordd synhwyrol o fynd yn ein blaenau.

Cyllid

Heblaw am waith arferol unrhyw fusnes, amcanion allweddol ffrwd gwaith cyllid cyn cyhoeddi bod OHPA yn cau oedd datblygu fframwaith mewnol tyn ar gyfer prynu a rheoli costau (cyfarwyddiadau cyllidol sefydlog a gorchmynion banc ac yn y blaen), a chytuno ar reoliadau ffioedd oedd i gael eu gweithredu o 1 Ebrill 2011. Dim ond megis dechrau oedd y gwaith ar reoliadau ffioedd (faint fyddai OHPA yn ei godi, pa mor aml, ac ym mha gymysgedd o gostau sefydlog ac amrywiol) pan ddaeth dyfodol OHPA dan fygythiad, a daeth y gwaith i ben.

Gan fod OHPA yn ei ddeddfwriaeth yn cael ei wahardd rhag benthyciadau masnachol, mae'n amlwg y byddai'r CMC (a'r GOC a rheolyddion eraill yn ddiweddarach) wedi gorfod darparu ymlaen llaw yr hyn sy'n cyfateb i gyfalaf gweithio. Byddai'n rhaid adlewyrchu hyn yn y rheoliadau ffioedd, yn ogystal â'r ffaith y byddai busnes OHPA yn gorfod ymateb i'r galw. Ar y llaw arall, byddai'r rheoliadau yn sicr o fod wedi ceisio ysgogi OHPA i ddefnyddio'u hadnoddau yn gynnil ac yn gymesur. Yn y pen draw, byddai gan OHPA fwy nag un rheoleiddiwr yn gwsmer iddo, a byddai'r ffioedd wedi gorfod adlewyrchu'r baich achosion o'u cymharu â'i gilydd.

Technoleg Gwybodaeth

Nid oedd manylion Technoleg Gwybodaeth wedi eu cytuno pan gafodd OHPA ei ddirymu. Dyma fyddai'r buddsoddiad mwyaf angenrheidiol i sefydlu'r gwasanaeth newydd, er bod ein trafodaethau gyda chyflenwyr posib wedi bod yn galonogol o safbwynt dichonoldeb ein gofynion a'r gost debygol. Roedd yn eglur y byddai OHPA angen system TG wedi'i chynllunio'n bwrpasol, ac am resymau technegol ac i gydnabod ein hannibyniaeth, na allai ddibynnu'n unig ar y strwythur Technoleg Gwybodaeth oedd yn bodoli'n barod o fewn y CMC. Pa un bynnag, roedd ein ffrwd gwaith Gweithrediadau wedi datgelu nad oedd system y CMC yn adlewyrchu'r llif gwaith na'r prosesau a ddilynwyd.

Yn ystod hynt rhaglen OHPA, roedd costau posibl ein Technoleg Gwybodaeth wedi gostwng yn sylweddol. Rhagwelwyd y byddai'n gwasanaethau i gyd wedi cael eu prynu o'r tu allan.

Ymgynghori a Gweithredu'r Cau

Ymatebodd OHPA yn llawn ac yn rymus i bapur ymgynghori'r Llywodraeth ynglŷn â'n dyfodol; (ceir copi o ymateb OHPA hefyd ar ein gwefan). Er ein bod yn parhau o'r farn mai rhaglen wreiddiol OHPA oedd yn cynnig y cynllun gorau, yn ariannol ac o ran hyder a diogelu'r cyhoedd, roeddem er hynny wedi datblygu fersiwn foel o'r cynigion (a elwid OHPA-lite) lle byddai OHPA yn gweithio trwy, yn hytrach na chymryd lle, weithgaredd presennol y CMC. Fe gostiwyd y fersiwn hwn, a phapur ar ei weithredu, a'u rhoi i mewn ar gais yr Adran.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, hepgorwyd gwasanaeth y rhan fwyaf o'r tîm interim a gasglwyd at ei gilydd, a bellach dim ond nifer fechan o aelodau staff sydd ar ôl, gan fod eu hangen i gyfarfod anghenion statudol ac eraill. Rydym yn rhoi sylw manwl i reoli'n cofnodion yng

ngoleuni'n cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data, a'n dyletswydd i gadw'n dogfennaeth i ddibenion yr Archifau Gwladol.

Bu bwrdd OHPA yn arbennig o awyddus fod y gwersi a ddysgwyd o waith OHPA ar gael i'w rhannu gyda rheolyddion gofal iechyd ac eraill. Paratowyd cyflwyniad sleidiau a bu OHPA yn cyfrannu ar lefel uwch i ddatblygiadau o fewn y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ychwanegu eitemau o'n harchif at wefan OHPA pan fo hynny'n bosib.

Noda'r bwrdd bod y ddeddfwriaeth i ddiddymu OHPA gerbron y Senedd ar hyn o bryd, ond os caiff ei gymeradwyo, bydd yn annhebygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol cyn trydydd chwarter 2011-12 ar y cynharaf. Yn y cyfnod tan hynny, mae'r bwrdd yn fodlon bod digon yn y gronfa ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol, i ganiatáu i OHPA barhau i gyfarfod â'i gyfrifoldebau fel y codant.

Yn dilyn ymgynghori gyda'r Adran Iechyd, mae'r bwrdd yn disgwyl y bydd gan OHPA ddigon o adnoddau i barhau i weithredu i'r dyfodol rhagweladwy. Am y rhesymau hyn, mae'r bwrdd yn parhau i fabwysiadu seiliau busnes gweithredol wrth baratoi ei adroddiad a'i gyfrifon.

Adolygiad Ariannol

Ariannwyd OHPA drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd drwy 2010-2011. Yn ystod y cyfnod hwn bu OHPA yn uniongyrchol atebol am ei wariant ei hun. Yn unol ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi, dangosir cymorth grant fel symudiad yn y gronfa wrth gefn.

Cyhoeddir ein cyfrifon yn llawn yn rhan o'r adroddiad hwn, wedi'u paratoi i gyd-fynd gyda'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r cyfarwyddyd cyfrifon a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Staff

Ni chafodd OHPA unrhyw absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2010-2011.

Diogelwch Data

Hyd yn hyn, ni chafwyd cofnod o unrhyw ddigwyddiad diogelwch data.

Polisi Talu'n Brydlon

Yng ngoleuni cyhoeddiad y Llywodraeth fod OHPA yn cael ei gau, nid yw OHPA wedi datblygu polisi talu'n brydlon iddo'i hunan. Anela OHPA at gyfarfod telerau polisi talu'n brydlon yr Adran Iechyd ei hun, ac mae eu telerau'n berthnasol i'r taliadau hynny y mae'r Adran yn parhau i'w gweinyddu.

Archwilydd

Caiff datganiadau ariannol blynyddol OHPA eu harchwilio'n allanol gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (RhAC) yn unol â pharagraffau 19(3) a (5) o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010 mae'r RhAC wedi amcangyfrif mai cost y gwaith a wnaed fyddai £5,000 a darparwyd ar gyfer y swm hwn yn y datganiadau ariannol. Roedd y gwasanaethau archwilio a ddarparwyd gan staff y RhAC yn ymwneud â gwaith archwilio statudol yn unig.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr OHPA yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Stephen Shaw

10 Mai 2011

Rhan 2: Cyfrifon 2010-2011

Cynnwys

Adroddiad Cydnabyddiaeth	16
Datganiad Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	18
Datganiad ar Reoli Mewnol	19
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Senedd San Steffan	22
Datganiad o Wariant Cyfansawdd Net	24
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	25
Datganiad Llif Arian	26
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr	27
Nodiadau i'r Cyfrifon	28
Atodiad: Cyfarwyddiadau Cyfrifon	37

Adroddiad Cydnabyddiaeth

Polisi Cydnabyddiaeth

Penderfynir ar gydnabyddiaeth y prif weithredwr a'r cadeirydd, a lwfansau aelodau anweithredol y bwrdd, eu telerau ac amodau eu cyflogi, yn unol â pharagraff 10 o Atodlen 6 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, fel y cytunwyd gan y Comisiwn Penodiadau, ar ran y Cyfrin Gyngor.

Penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd drwy'r Comisiwn Penodiadau yn penodi'r prif weithredwr ar sail barhaol, ac mae penodiad y cadeirydd ac aelodau anweithredol y bwrdd am dymor sefydlog o dair i bedair blynedd.

Gwasanaethu cytundebau

Cyflogir y prif weithredwr yn aelod parhaol o'r staff, ac ymunodd ar 10 Mai 2010. Ni phenodwyd unrhyw aelodau eraill i'r staff yn ystod y flwyddyn.

Terfyniad

Nid oes iawndal yn daladwy i aelodau anweithredol y bwrdd am golli eu swydd. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu a ddylid talu iawndal i gadeirydd OHPA. Mae'r prif weithredwr â hawl i gyfnod o chwe mis o rybudd neu daliad yn ei le.

Cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd

Dangosir y gydnabyddiaeth i'r cadeirydd a lwfansau aelodau'r bwrdd yn y tabl isod. Nid oedd taliadau mewn nwyddau.

Mae OHPA yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth angenrheidiol a dalwyd gan aelodau OHPA wrth fynd i gyfarfodydd neu wrth ymgymryd â thasgau sy'n codi o'u haelodaeth, a hynny yn unol â'r amodau ac yn ôl y cyfraddau a osodwyd gan y Comisiwn Penodiadau.

	Dyddiad Penodi	Dyddiad Terfynu'r Penodiad	Cyflog / Lwfans (£)
Walter Merricks (Cadeirydd)	25/01/2010	24/01/2014	100,000
Pamela Charlwood (Aelod)*	25/01/2010	24/01/2013	7,765
Andrew Colquhoun (Aelod)**	25/01/2010	24/01/2014	7,765
Dame Janet Finch (Aelod)	25/01/2010	24/01/2014	7,765
			123,295

* Aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg
** Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr

Cyfanswm enillion y prif weithredwr am y flwyddyn hyd fis Mawrth 2011 oedd £134,374 (taliad blwyddyn lawn: £149,999).

Pensiynau

Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y gydnabyddiaeth sy'n daladwy i'r prif weithredwr yn bensiynadwy. Nid yw'r gydnabyddiaeth a delir i'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol yn bensiynadwy.

Daw pensiwn y prif weithredwr drwy ddarpariaeth cynllun pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Am y 12 mis hyd 31 Mawrth 2011, roedd cyfraniadau cyflogwr o £18,812 yn daladwy i gynllun pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar raddfa o 14% o gyflog pensiynadwy.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ydy gwerth cyfalaf y buddiannau o gynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i brisio gan actwari. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sy'n daladwy i briod aelod o'r cynllun. CETV yw'r taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn cael buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau CETV a manylion eraill y pensiwn yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod drwy brynu blynyddoedd ychwanegol yn y cynllun ar ei gost ei hunan. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n gyfwerth ag Arian Parod o fewn y canllawiau a'r fframwaith a benodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

Mae'r ffigwr pensiwn a ddangosir uchod yn berthynol i union gyfraniad y cyflogwr tuag at gynllun pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac nid y CETV. Gan nad ymunodd OHPA â chynllun pensiwn y GIG tan tua diwedd y flwyddyn ariannol, ni fu'n bosib adrodd ar y CETV ar ddiwedd y flwyddyn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariannwyd gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n cymryd cyfrif o'r cynnydd mewn pensiwn a gronnodd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a wnaed gan y cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall), a chan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod. Oherwydd y rhesymau a eglurwyd uchod, ni fu'n bosib adrodd ar y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV am y flwyddyn ariannol.

Cafodd yr wybodaeth ynglŷn â chyflogau, lwfansau a phensiynau ei archwilio.

Stephen Shaw

Swyddog Cyfrifyddu

10 Mai 2011

Datganiad Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiwn Iechyd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. Dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("Ddeddf 2008"), penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd ("OHPA") yn paratoi datganiad o gyfrifon pob blwyddyn ariannol mewn ffurf ac ar y sail a osodir yn y Cyfarwyddiadau Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa OHPA ac o'r incwm a'r gwariant, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a llif arian am y flwyddyn ariannol.

2. Wrth baratoi eu cyfrifon bydd yn rhaid i'r OHPA gymryd i ystyriaeth egwyddorion cyfrifyddu ac anghenion dadleniad Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol, rhaid iddynt:

- gymryd sylw o'r Penderfyniadau Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- barnu ac amcangyfrif ar sail resymol;
- dilyn safonau cyfrifyddu cymwys, ond yn ddarostyngedig i wahaniaethau sylweddol a ddatgelir a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

3. Dynododd y Cyfrin Gyngor y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu OHPA. Eglurir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau OHPA, yn *Rheoli Arian Cyhoeddus* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Datganiad ar Reoli Mewnol

Cwmpas y cyfrifoldebau

Fel swyddog cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a bwriadau OHPA, ac ar yr un pryd yn diogelu arian ac asedau'r cyhoedd rwyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Mae atebolrwydd ac adrodd yn ôl o fewn OHPA yn cael eu llywio drwy gorff rheoli, y bwrdd, yn unol â fframwaith gweithredol OHPA. Arweinir y bwrdd gan y cadeirydd, ac mae'n cynnwys hefyd y prif weithredwr a thri aelod anweithredol. Mae swyddogaeth y bwrdd yn un allweddol: gosod cyfeiriad strategol y sefydliad, arolygu ei waith, a chynghori a monitro i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion.

Pwrpas system rheoli mewnol

Cynlluniwyd system rheoli mewnol i reoli risg i lefel rhesymol yn hytrach nag i ddiddymu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, amcanion a bwriadau; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system o reoli mewnol wedi'i seilio ar broses gyfredol sydd wedi'i chynllunio i ganfod a blaenoriaethu'r peryglon i gyflawniad polisïau, amcanion a bwriadau OHPA, i asesu'r tebygolrwydd y bydd y peryglon hynny'n digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Bu system o reoli mewnol sy'n cyfateb i lefel gweithgaredd OHPA yn ei lle ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac mae'n cyfateb i ganllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Cymhwyster i drin risg

Rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb cyffredinol fel sy'n amlwg o ddogfen fframwaith gweithredol ar gyfer rheoli risg yn effeithiol drwy OHPA. Cyfarfu bwrdd OHPA wyth o weithiau yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg unwaith yn ystod y flwyddyn, a bydd yn cyfarfod eto ym Mai 2011 i adolygu strategaeth risg a rheoli risg OHPA yn ystod y cyfnod cau. Cymeradwyodd bwrdd OHPA y gofrestr risg a oedd yn rhan o'r dogfennau cychwynnol. Hefyd, cymeradwyodd bwrdd OHPA y strategaeth rheoli risg, a chofrestr risg y rhaglen strategol.

Fframwaith risg a rheoli

Yr Adran Iechyd yw prif noddwr rhaglen OHPA. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am y rhaglen yn yr Adran a thîm OHPA. Rhagwelir y bydd y cyfarfodydd cyson hyn yn parhau i ddigwydd nes y bydd OHPA wedi cau.

Fframwaith rheoli rhaglen

Tra bu OHPA yn weithredol, seiliwyd y system rheoli mewnol ar fframwaith rheoli rhaglen. Cyfarfu bwrdd y rhaglen yn fisol. Ei bwrpas oedd rheoli gweithrediad y rhaglen. Ffurfiwyd y bwrdd o uwch gynrychiolwyr OHPA (sy'n cadeirio'r cyfarfod), Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yr Adran Iechyd, a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC). Mae yno hefyd gynrychiolaeth o'r Cyngor Optegol Cyffredinol (y disgwylid iddo drosglwyddo ei swyddogaeth dyfarnu i OHPA yn ddiweddarach), a dau aelod annibynnol arall sy'n cynnig swyddogaeth herio a chraffu. Mae bwrdd y rhaglen wedi adolygu cynllun y rhaglen a'r adroddiad, gan dynnu sylw at feysydd risg a chytuno ar ddulliau o'u lliniaru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd OHPA yn fisol hyd ddiwedd 2010. Cynhaliwyd y cyfarfod bwrdd olaf yn y flwyddyn ariannol ym mis Ionawr 2011. Pwrpas bwrdd OHPA yw arwain cyfeiriad strategol OHPA, ac arwain

datblygiad y sefydliad. Adroddodd bwrdd rhaglen OHPA yn ôl i fwrdd OHPA ar bob agwedd o gynllunio'r rhaglen, adrodd yn ôl a rheoli risg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm ar lefel cyfarwyddwyr yn wythnosol i gyflwyno diweddariad busnes ar ddigwyddiadau diweddar, a chanfod materion pwysig yn y tymor byr a'r tymor canolig. Hefyd defnyddiwyd y cyfarfodydd cyfarwyddwyr i sicrhau fod y tîm trosiannol wedi ei hysbysu'n llawn am ddatblygiadau cyfredol OHPA a'r rhaglen yn gyffredinol. Daeth y cyfarfodydd hyn i ben yn yr hydref 2010 yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ymgynghori ar ddyfodol OHPA, a'r gostyngiad yn nifer y staff interim o ganlyniad i hynny.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio trosiannol bob pythefnos gyda'r cyfarwyddwyr a thîm y rhaglen i adolygu cynnydd, peryglon a phroblemau. Gwnaed hyn drwy roi diweddariad ar gynlluniau'r ffrydiau gwaith a'u hadroddiadau, oedd yn eu tro yn bwydo i adroddiad ar gynllun cerrig milltir cyffredinol y rhaglen a'i huchafbwyntiau. Cynhaliwyd yr olaf o'r cyfarfodydd hyn ym mis Gorffennaf 2010.

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth o'i fwriad i beidio mynd ymlaen â rhaglen OHPA, gostyngwyd y system reoli fewnol i lefel sy'n gymesur â gweithgaredd sefydliad yn ei gyfnod cau. Mae'r Prif Weithredwr bellach yn arolygu pob agwedd ar weithgaredd OHPA er mwyn sicrhau fod mesurau rheoli mewnol cymwys yn cael eu dilyn.

Fframwaith rheoli ariannol

Cytunwyd ar Fframwaith Cyllido ac Atebolrwydd OHPA gyda'r Adran Iechyd am y cyfnod trosiannol. Tra roedd OHPA yn datblygu ei system ei hun o reoli ariannol mewnol, roedd yr Adran yn gweinyddu'r mwyafrif o brosesau caffael a thaliadau i staff a chyflenwyr ar ei ran. Cymeradwywyd cyfarwyddiadau ariannol sefydlog OHPA gan y bwrdd yn ystod y flwyddyn, a'r rhain yw'r seiliau ar gyfer rheolaeth ariannol.

Fframwaith rheoli arall

Nid aeth OHPA lawer ymhellach na'i gyfnod cychwynnol, ac roedd wedi prin ddechrau datblygu ei gymwysiadau Technoleg Gwybodaeth na'i seilwaith. Penododd OHPA y Prif Weithredwr fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Bu Diogelwch Gwybodaeth yn gyfrifoldeb y cyfarwyddwr TG dros dro hyd ddechrau Hydref 2010, ond bellach mae'n rhan o gyfrifoldeb y Prif Weithredwr.

Rheolir yn ddiogel holl ddata electronig OHPA, a mynediad at y data hwnnw, drwy ddefnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth yr Adran Iechyd. Mae'r Adran Iechyd yn darparu pob agwedd ar archwilio diogelwch, bwrdd gwaith, seilwaith a chymwysiadau.

Mae gan OHPA ei chyfnewidfa e-bost ei hun sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Rackspace Cyf drwy'r Adran Iechyd. Tra bod Rackspace Cyf yn darparu cyfleuster cytundeb 'porthladd diogel' (http://www.export.gov/safeharbor/), mae pob dogfen, yn benodol ond nid yn unig y rhai sy'n cynnwys data personol, sy'n cael ei throsglwyddo drwy e-bost yn cael ei harchifo i yriant pwrpasol a reolir gan yr Adran Iechyd sy'n cynnwys strwythur ffeil OHPA.

Hyd yn hyn, ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiad diogelwch data yn OHPA.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel swyddog cyfrifyddu, mae gen i'r cyfrifoldeb o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Cafodd fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol ei arwain ar y cychwyn gan gyngor gan y cyfarwyddwr cyllid interim, ac wedyn gan y rheolwr ariannol sydd â'r cyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori gan y bwrdd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol, ac mae cynlluniau i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaol y system wedi'u gosod yn eu lle.

Stephen Shaw

Swyddog Cyfrifyddu

10 Mai 2011

Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i senedd san steffan

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011 dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad o Wariant Cyfansawdd Net, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi dan y polisïau cyllido a gyflwynwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr Adroddiad fel un sydd wedi'i archwilio.

Cyfrifoldebau priodol Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd, y Swyddog Cyfrifyddu, a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Cynheliais yr archwiliad yn ôl Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan sylweddol, wedi'i achosi naill ai gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r polisïau archwilio yn briodol i amgylchiadau Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol sydd yn Sylwebaeth Reoli'r Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod unrhyw anghysondeb sylweddol o'i gymharu â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. O ddod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatgan sylweddol neu anghysonderau, byddwn yn ystyried oblygiadau hyn i'm tystysgrif.

Hefyd, mae gofyn i mi gasglu digon o wybodaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm a adroddir yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r pwrpas y cawsant eu bwriadu gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i defnyddiwyd y gwariant a'r incwm, i bob pwrpas rhesymol, i'r amcanion y'i bwriadwyd gan Senedd San Steffan ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 ac o'r gwariant net am y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny; a
- bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn gywir yn ôl Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd dan y Ddeddf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Pwyslais mater - Busnes Gweithredol

Wrth ffurfio barn, nad yw'n amodol, ystyriais addasrwydd datgeliadau yn y datganiadau ariannol a wnaed yn nodyn 1.2 'Busnes Gweithredol' ac yn nodyn 11 Digwyddiadau ar ôl y Fantolen, sy'n mynd i'r afael â chyhoeddiad y Llywodraeth ei fod yn bwriadu diddymu Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd, o gael cymeradwyaeth y Senedd i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi bodolaeth ansicrwydd all fwrw amheuaeth arwyddocaol am allu Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd i barhau fel busnes gweithredol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr addasiadau a fyddai'n dilyn pe na bai Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a gyhoeddwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; ac mae'r
- wybodaeth a roddwyd yn y Sylwebaeth Reoli yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol y byddwn yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu addas; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan berthnasol o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r dychweliadau; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r eglurhad roeddwn yn gofyn amdano ar gyfer yr archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad ar Reoli Mewnol yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

Dyddiad: 17 Mai 2011

Datganiad o Wariant Net Cyfansawdd

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 March 2011

	Nodyn	2010/11 £	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010 £
Gwariant			
Costau Staff	3	1,355,392	247,925
Cost llety a gwasanaethau wedi'u rheoli	4	73,077	18,882
Gwariant arall	5	254,063	346,434
		(1,682,532)	**(613,241)**
		(1,682,532)	(613,241)
Gwariant net		**(1,682,532)**	**(613,241)**

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gweithgareddau i gyd yn parhau. Cytunodd yr Adran Iechyd i barhau cyllido OHPA nes y bydd wedi cau

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2011

	Note	2010/11 £	2009/10 £
Asedau nad ydynt yn gyfredol:			
Eiddo, peiriannau ac offer	6	-	-
Asedau cyfredol:			
Derbyniadau masnach a thaliadau ymlaen llaw	7	2,434	1,469
Arian a chywerthoedd arian	8	75,157	312,920
Cyfanswm Asedau		**77,591**	**314,389**
Dyledion cyfredol:			
Masnach a symiau taladwy eraill	9	(60,120)	(106,050)
Symiau taladwy i'r Adran Iechyd	9	(17,471)	(208,339)
Cyfanswm dyledion cyfredol		**77,591**	**314,389**
Asedau nad ydynt yn gyfredol plws asedau cyfredol		**-**	**-**
Asedau heb ddyledion		**-**	**-**
Cronfa wrth gefn:			
Arian cyffredinol wrth gefn	10	-	-
		-	**-**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 24 i 36 gan y Bwrdd ar 04 Mai 2011, a'u harwyddo ar ei ran gan:

Stephen Shaw

Swyddog Cyfrifyddu

10 Mai 2011

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad Llif Arian

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

	Nodyn	2010/11 £	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010 £
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwariant net		(1,682,532)	(613,241)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau taladwy i fasnach		(45,930)	106,050
Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau taladwy i'r Adran Iechyd		(190,868)	208,339
(Cynnydd) / gostyngiad mewn derbyniadau a thaliadau ymlaen llaw gan fasnach		(965)	(1,469)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		**(1,920,295)**	**(300,321)**
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		**-**	**-**
Llif arian o weithgareddau ariannol			
Cymorth Grant gan yr Adran Iechyd	2	1,682,532	613,241
(Gostyngiad) / cynnydd net mewn arian a chyfwerth arian yn ystod y cyfnod		(237,763)	312,920
Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod		312,920	-
Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod		**75,157**	**312,920**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2011

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £
Mantolen ar 25 Ionawr 2010		-
Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr o 25 Ionawr i 31 Mawrth 2010		
Grant y Llywodraeth o'r Adran Iechyd		613,241
Adwaenir mewn Datganiad o Wariant Net Cyfansawdd		(613,241)
Mantolen ar 31 Mawrth 2010		-
Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr yn 2010/11		
Grant o'r Adran Iechyd	2	1,682,532
Adwaenir mewn Datganiad o Wariant Net Cyfansawdd		(1,682,532)
Mantolen ar 31 Mawrth 2011		-

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Nodiadau i'r Cyfrifon

1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2010-11 (iFReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn iFReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Ble mae iFReM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi y barnwyd oedd y mwyaf addas ar gyfer amgylchiadau arbennig Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA) i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Isod, disgrifir y polisïau arbennig a fabwysiadwyd gan OHPA ar gyfer y gweithgareddau yr adroddir arnynt. Cawsant eu defnyddio'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn yn ôl confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

1.2 Busnes gweithredol

Mae OHPA yn derbyn cyllid gan yr Adran Iechyd ar gyfer ei gostau gweithredol. Mae'r ddeddfwriaeth i ddiddymu OHPA o flaen y Senedd ar hyn o bryd, ond os caiff ei gymeradwyo, bydd yn annhebygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol hyd drydydd chwarter 2011-12 ar y cynharaf. Cafwyd cadarnhad gan yr Adran Iechyd y bydd yn parhau i gyllido OHPA drwy gymorth grant hyd nes y bydd y ddeddfwriaeth yn diddymu OHPA wedi dod i rym yn llwyr. Am y rhesymau hyn, ystyriwyd y byddai'n addas mabwysiadu seiliau busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.3 Cymorth Grant

Mae anghenion ariannol net OHPA yn cael eu cyllido gan gymorth grant o'r Adran Iechyd, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol wrth gefn ac na ddangosir fel incwm. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol pan dderbynnir y cyllid dan sylw.

1.4 Asedau diriaethol nad ydynt yn gyfredol

Mae gwariant ar asedau diriaethol yn cael ei gyfalafu. Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cynnwys trwyddedau meddalwedd, offer technoleg gwybodaeth, offer a ffitiadau swyddfa, a gwelliannau prydles swyddfa. Eglurir cyfyngiadau trothwy cyfalafu a pholisi dibrisiant isod:

Mae gwariant ar brosiectau technoleg gwybodaeth mawr yn cael ei gyfalafu. Mae hyn yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar galedwedd, meddalwedd a chostau gosod peirianwaith addas gan ymgynghorwyr.

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cyfalafu os yw'r gost yn £3,000 neu fwy. Fodd bynnag ar gyfer pryniant cyfunol o offer TG, meddalwedd TG neu ffitiadau a dodrefn, os yw cost yr eitem unigol yn £500 neu fwy mae'r rhain yn cael eu cyfalafu pan fydd cyfanswm cost y pryniant cyfunol yn £1,500 neu fwy.

Mae asedau yn y broses o gael eu hadeiladu yn cael eu cyfalafu am gost gwerthiant ac wedyn yn cael eu dibrisio o'r dyddiad y maent yn weithredol.

I bwrpas amcangyfrif gwerth cyfredol mae ailbrisio yn cael ei weithredu gan ddefnyddio mynegeion a baratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at werth cau'r asedau materol yn unig (e.e. gwelliant prydles) ar ddiwedd y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth. Mae colledion ailbrisio ar ddyddiad y fantolen yn cael eu dileu yn erbyn y gyfran o weddill y credyd ar yr ailbrisio sydd wrth gefn. Mae gwerth unrhyw golledion eraill sy'n aros yn cael eu codi o'r cyfrif gwariant net.

1.5 Dibrisiad

Codir pris dibrisio ar bob un o'r asedau nad ydynt yn gyfredol ar raddfeydd a gyfrifir i ysgrifennu gwerth pob ased i'w werth gweddilliol amcangyfrifedig yn wastad dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig. Hyd y bywydau a amcangyfrifir yn gyfredol am bob dosbarth o asedau yw:

Gosodiadau a ffitiadau	Pum mlynedd
Gwelliant prydles	Deng mlynedd
Offer Swyddfa a TG	Tair blynedd

1.6 Asedau anniriaethol

Mae costau cychwynnol meddalwedd a thrwyddedau yn cael eu cyfalafu a'u hamorteiddio dros fywyd defnyddiol y meddalwedd, tra codir arian am drwyddedau blynyddol i ddefnyddio meddalwedd neu i sicrhau diweddaru parhaus o'r cyfrif gwariant net wrth iddynt gael eu prynu. Lefel isafswm y cyfalafu am asedau sefydlog yw £3,000. O'u hadnabod am y tro cyntaf mesurir asedau yn ôl cost, gan gynnwys costau fel gosod peirianwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd iddo ei gyflawni.

Hyd y bywydau a amcangyfrifir yn gyfredol i bob dosbarth o asedau yw:

Datblygu meddalwedd a thrwyddedau	Tair blynedd

1.7 Trethu

Mae gwariant yn y cyfrif gwariant net yn cael ei ddangos i gynnwys Treth Ar Werth (TAW), sydd yn anadferadwy i OHPA.

1.8 Buddiannau'r cyflogedig

a. Pensiynau

Daeth OHPA yn aelod o gynllun pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn ystod y flwyddyn. Cadwodd yr aelodau o'r staff a gontractiwyd hyd 31 Mawrth 2011 at gynllun pensiwn eu cyflogwr gwreiddiol, neu fe wnaed trefniadau eraill.

b. Gwyliau blynyddol a buddiannau tymor byr y cyflogedig

Mae OHPA yn cydnabod hawl y cyflogedig i wyliau blynyddol na chafodd ei gymryd, a buddiannau tymor byr eraill sydd wedi cronni i'r gweithwyr. Rydym yn darparu ar gyfer amcan o'r dyledion am wyliau a enillwyd ond heb ei gymryd gan ein gweithwyr ar 31 Mawrth.

1.9 Gwariant

Bydd OHPA yn dadansoddi ei wariant rhwng costau staff, llety a chostau gwasanaethau a reolwyd, a gwariant arall. Rydym yn cydnabod gwariant pan ei fod, ac i'r graddau y mae, i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu darparu ar ein cyfer.

1.10 Offerynnau ariannol

Cydnabyddir offerynnau ariannol yn y fantolen pan fo OHPA wedi dod yn barti i ddarpariaethau contract yr offerynnau hynny. Dosberthir offerynnau ariannol fel dyledion neu ecwiti yn unol â sylwedd trefniadau'r cytundeb. Adroddir ar logau, enillion neu golledion perthnasol i offeryn ariannol a ddynodir fel dyled fel treuliau neu incwm. Caiff offerynnau ariannol eu gwrthbwyso pan fo gan OHPA hawl cyfreithiol gorfodadwy i wrthbwyso, a'i fod yn bwriadu setlo un ai ar sail net, neu drwy sylweddoli'r ased a setlo'r ddyled ar yr un pryd.

Dyledion ariannol

Bydd OHPA yn cydnabod dyled ariannol pan ddaw yn barti i ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol. Yr eithriad i hyn ydy unrhyw ddyled sy'n perthyn i bryniant nwyddau neu wasanaethau fel rhan o fusnes arferol OHPA. Mewn achos felly, byddai'r ddyled ariannol yn cael ei chydnabod pan fydd, ac i'r graddau y mae, i dalu am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd.

Bydd OHPA yn dileu dyled ariannol o'r fantolen pan fydd wedi ei diddymu, h.y. pan fo'r ymrwymiad yn y contract wedi'i dalu, ei ddileu, neu wedi terfynu.

2 Cymorth grant

	2010/11	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010
	£	£
Cymorth grant a dderbyniwyd - gwariant refeniw	1,682,532	613,241
Cymorth grant a dderbyniwyd - gwariant cyfalaf	-	-
	1,682,532	**613,241**
Cymorth grant a dynnwyd i lawr	1,356,240	334,000
Taladwy i'r Adran Iechyd	(17,471)	(208,339)
Taliadau ymlaen llaw gan yr Adran Iechyd	-	1,469
Gwario gan OHPA	1,338,769	127,130
Gwario gan yr Adran Iechyd ar ran OHPA	343,763	486,111
	1,682,532	**613,241**

3 Niferoedd staff a chostau perthnasol

(a) Costau staff yn cynnwys:

	Staff a gyflogir yn barhaol	Aelodau'r Bwrdd	Eraill	Cyfanswm
	£	£	£	£
Am y flwyddyn 2010/11				
Cyflogau a thaliadau	338,360	123,295	807,776	1,269,431
Cost Nawdd Cymdeithasol	34,233	12,856	-	47,089
Costau Pensiwn	38,872	-	-	38,872
Cyfanswm costau net	**411,465**	**136,151**	**807,776**	**1,355,392**
25 Ionawr i 31 Mawrth 2010				
Cyflogau a thaliadau	19,564	26,961	196,687	243,212
Cost Nawdd Cymdeithasol	800	3,085	-	3,885
Costau Pensiwn	828	-	-	828
Cyfanswm costau net	**21,192**	**30,046**	**196,687**	**247,925**

Am y 12 mis hyd 31 Mawrth 2011, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £20,060 i gynlluniau pensiwn ar gyfer staff dan gontract, ar raddfa o 13% o gyflog pensiynadwy. Gweler Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 16 am bensiwn y prif weithredwr.

(b) Cyfartaledd niferoedd y bobl a gyflogir

Roedd cyfartaledd nifer y rhai a gyflogwyd yn llawn amser yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Staff	Eraill	Cyfanswm
Am y flwyddyn 2010/11			
Cyflogwyd yn uniongyrchol	3	-	3
Cyflogwyd drwy eraill	1	5	6
Cyfanswm	**4**	**5**	**9**
25 Ionawr i 31 Mawrth 2010			
Cyflogwyd yn uniongyrchol	2	-	2
Cyflogwyd drwy eraill	2	7	9
Cyfanswm	**4**	**7**	**11**

4 Cost llety a gwasanaethau a reolir

	2010/11	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010
	£	£
Cost llety a gwasanaethau a reolir	73,077*	18,882*

* Mae'r Adran Iechyd yn darparu'r gwasanaeth hwn i OHPA. Mae'n eithrio Cyllid ac Adnoddau Dynol.

5 Gwariant arall

	2010/11	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010
	£	£
Cynllunio gwefan a gwe-letya	20,860	35,700
Cost recriwtio	-	133,732
Adolygu prosesau busnes	86,891	100,950
Brandio	-	30,000
Ffioedd cyfreithiol	29,392	-
Ffioedd ymgynghori	21,137	6,566
Archwiliad statudol o'r cyfrifon	5,000	5,000
Costau gweinyddol	90,783	34,486
	254,063	**346,434**

6 Eiddo, peiriannau ac offer

	2010/11	2009/10
	£	£
Eiddo, peiriannau ac offer	-	-

Ni phrynwyd asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y cyfnod.

7 Derbyniadau masnach a thaliadau ymlaen llaw

	2010/11	2009/10
	£	£
Derbyniadau	87	-
Taliadau ymlaen llaw	2,347	1,469
	2,434	**1,469**

8 Arian a chyfwerth arian

	2010/11 £	2009/10 £
Gweddill ar 1 Ebrill	312,920	-
Newid net yn y fantolen arian a chyfwerth arian	(237,763)	312,920
Gweddill ar 31 Mawrth	**75,157**	**312,920**
Roedd gweddill yr arian ar 31 Mawrth 2011 mewn:		
Banciau masnachol	75,157	312,920
Gweddill ar 31 Mawrth	**75,157**	**312,920**

9 Symiau taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill
Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn

	2010/11 £	2009/10 £
Symiau Masnach taladwy	13,258	13,199
HMRC	12,635	14,680
Croniadau	34,227	78,171
Yn ddyledus i'r Adran Iechyd	17,471	208,339
	77,591	**314,389**

10 Incwm a Gwariant wrth gefn

	2010/11 £	25 Ionawr i 31 Mawrth 2010 £
Gwariant net	(1,682,532)	(613,241)
Cymorth grant	1,682,532	613,241
	-	**-**

11 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS10, ystyrir digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd hyd at y dyddiad pryd yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ar 2 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth – a chymryd yn ganiataol gymeradwyaeth y Senedd i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol – na fyddai rhaglen OHPA yn parhau. Yng ngoleuni'r cyhoeddiad hwn, mae bwrdd OHPA wedi adolygu priodoldeb paratoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol'.

Mae'r bwrdd yn nodi bod y ddeddfwriaeth i ddiddymu OHPA ar hyn o bryd gerbron y Senedd, ond os caiff ei gymeradwyo, bydd yn annhebygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol cyn trydydd chwarter 2011-12 ar y cynharaf. Yn y cyfamser mae'r bwrdd yn fodlon fod, ac y bydd, cyllid digonol yn ei le a fydd yn galluogi OHPA i barhau i gyfarfod â'i ymrwymiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Yng ngoleuni'r uchod, ac yn dilyn ymgynghori gyda'r Adran Iechyd, mae'r bwrdd yn hyderus y bydd gan OHPA ddigon o adnoddau i barhau i weithredu i'r dyfodol rhagweladwy. Am y rhesymau hyn, mae'r bwrdd yn parhau i fabwysiadu seiliau busnes gweithredol wrth baratoi ei adroddiad a'i gyfrifon.

12 Trafodion partïon cysylltiedig

Cyllidir OHPA gan yr Adran Iechyd drwy gymorth grant. Ystyrir yr Adran Iechyd fel parti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod, cafodd yr OHPA wahanol drafodion perthnasol â'r Adran Iechyd, a chynhaliwyd pob un ar brisiau hyd braich.

Ni fu i unrhyw un o aelodau'r bwrdd ymgymryd â thrafodion â'r OHPA yn ystod y cyfnod, ar wahân i gydnabyddiaeth a dalwyd am eu gwasanaeth ac, yn achos aelodau anweithredol, cydnabyddiaeth am gostau teithio o'u cartref i'r swyddfa.

13 Offerynnau ariannol

Gan fod anghenion ariannol OHPA wedi'u talu drwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd am y flwyddyn ariannol 2010/11, nid yw OHPA wedi'i adael yn agored i beryglon credyd, hylifedd neu'r farchnad.

Risg Hylifedd: Nid oedd unrhyw risg sylweddol o ystyried fod anghenion adnoddau net OHPA am y flwyddyn ariannol yn cael ei gyllido gan gymorth grant.

Risg graddfa llog: Nid yw OHPA yn agored i risg graddfa llog gan nad oes ganddo ddyledion ariannol ac asedau ariannol sydd mewn cyfrif cadw â graddfa llog amrywiol.

Risg arian tramor: Nid yw OHPA yn ymdrin ag arian tramor ac nid yw'n ddarostyngedig i risg anwadaliad arian.

Derbyniadau: Am y cyfnod, cafodd OHPA ei gyllido'n llwyr gan gymorth grant. Nid yw OHPA yn agored i unrhyw risg credyd.

Symiau taladwy: Cydnabyddir rhwymedigaethau am gyfrifon sy'n ddyledus i'w talu yn y dyfodol am nwyddau neu wasanaethau a dderbyniwyd, os ydynt wedi'u hanfonebu ai peidio. Os nad oes termau masnach wedi'u pennu, fe'i telir dim hwyrach na 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb. Nid yw OHPA yn agored i grynodiadau o risg credyd i un neu grŵp o symiau taladwy.

14 Gwelliannau a dehongliadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd ar fin cael eu cyflwyno ond ddim yn effeithiol nac wedi'u mabwysiadu eto.

Mae angen datgelu IAS8, polisïau cyfrifyddu, newidiadau mewn amcangyfrifon a chamgymeriadau cyfrifyddu o gofio'r gwelliannau a dehongliadau IFRS newydd sydd ac a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Mae nifer o welliannau a dehongliadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Cydwladol sydd yn effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol ar ôl y cyfnod hwn o adrodd. Ystyriwyd y canlynol fel rhai perthnasol ac nid ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan OHPA:

IFRS 9 Offerynnau ariannol

Safon newydd a fwriedir i ddisodli IAS 39. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2013.

IFRS 7 Offerynnau ariannol: Datgelu

Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi 1 Ionawr 2011.

IFRS 1 Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf

Gwelliannau i'r safon bresennol. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi, 1 Gorffennaf 2010.

IFRS 1 Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf

Datgeliadau wedi eu huwchraddio yn ofynnol ar gyfer datganiad ariannol interim. Y dyddiad perthnasol yw cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar, neu wedi, 1 Ionawr, 2011.

Nid yw unrhyw un o'r safonau newydd neu ddiwygiedig hyn yn debygol o fod yn berthnasol ac ni ragwelir y caiff effaith berthnasol yn y dyfodol ar ddatganiadau ariannol OHPA.

Atodiad: Cyfarwyddiadau Cyfrifon

1. Dan baragraffau 19 (1), (2) a (3) o Atodiad 6 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("Deddf 2008"), mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i benderfynu ar ffurf y cyfrifon sy'n rhaid i Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd ("OHPA") eu cadw, ffurf y cyfrifon blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol y mae'n rhaid i OHPA eu paratoi, a'r cyfnod yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddo, oddi fewn i'r hwn mae'n rhaid i OHPA anfon copïau o'r cyfrifon cyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

2. Mae'r llythyr hwn yn sefydlu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn y materion hyn, ac mae'n effeithiol o ddyddiad y llythyr hwn.

3. Wrth baratoi ei gyfrifon rhaid i OHPA ystyried egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

4. Rhaid i gyfrifon blynyddol OHPA:

- roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ac o'r incwm a'r gwariant, yr enillion a'r colledion y gellir eu canfod yn llawn, a llif arian yr OHPA am y flwyddyn a ddaeth i ben; a
- darparu dadleniad o unrhyw wariant perthnasol neu incwm na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan y Senedd, neu drafodion perthnasol na fu iddynt gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

5. Y cyfnod yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae cyfrifon blynyddol yr OHPA yn cyfeirio ati, pryd y mae'n ofynnol i OHPA anfon copïau o'u cyfrifon blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol, y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yw saith mis yn y flwyddyn gyntaf a deufis ar ôl hynny.

6. Mae'r nodyn hwn i'w atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

28 Gorffennaf 2010

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, telephone, fax and email
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Telephone orders/general enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-Call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/general enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other accredited agents

Customers can also order publications from:
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Telephone orders/general enquiries: 028 9023 8451
Fax orders: 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-297226-9

9 780102 972269